**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**CYNGOR**
Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Mercher, 20 Ionawr 2021 am 5.00 pm.

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Cyngor Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd S Powderhill (Cadeirydd)

Y Cynghorydd M Adams
Y Cynghorydd S Belzak
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd H Boggis
Y Cynghorydd J Bonetto
Y Cynghorydd S Bradwick
Y Cynghorydd J Brencher
Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd A Chapman
Y Cynghorydd A Cox
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd J Cullwick
Y Cynghorydd G Davies
Y Cynghorydd J Davies
Y Cynghorydd M Diamond
Y Cynghorydd J Edwards
Y Cynghorydd J Elliott
Y Cynghorydd S Evans
Y Cynghorydd S.Evans
Y Cynghorydd M Forey
Y Cynghorydd A Fox
Y Cynghorydd H Fychan
Y Cynghorydd E George
Y Cynghorydd D Grehan
Y Cynghorydd E Griffiths
Y Cynghorydd M Griffiths
Y Cynghorydd J Harries
Y Cynghorydd G Holmes
Y Cynghorydd L Hooper
Y Cynghorydd G Hopkins
Y Cynghorydd P Howe
Y Cynghorydd J James
Y Cynghorydd P Jarman
Y Cynghorydd G Jones
Y Cynghorydd K Jones
Y Cynghorydd L Jones
Y Cynghorydd W Jones
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd W Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd A Morgan
Y Cynghorydd K Morgan
Y Cynghorydd S Morgans
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd Owen-Jones
Y Cynghorydd W Owen
Y Cynghorydd M Powell
Y Cynghorydd S Powell
Y Cynghorydd S. Rees-Owen
Y Cynghorydd S Rees
Y Cynghorydd A Roberts
Y Cynghorydd J Rosser
Y Cynghorydd G Stacey
Y Cynghorydd E Stephens
Y Cynghorydd M Tegg
Y Cynghorydd G Thomas
Y Cynghorydd W Treeby
Y Cynghorydd R Turner
Y Cynghorydd L Walker
Y Cynghorydd M Weaver
Y Cynghorydd M Webber
Y Cynghorydd E Webster
Y Cynghorydd D Williams
Y Cynghorydd J Williams
Y Cynghorydd T Williams
Y Cynghorydd C Willis
Y Cynghorydd R Yeo

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant

Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr P Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr N Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

**80 Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriad o absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol A Calvert, A Davies-Jones, L De Vet, M Fidler Jones, G W Hughes, S Pickering.

**81 Croeso a Chyflwyniadau**

Cafodd cyflwyniadau eu gwneud gan Arweinwyr y Grwpiau a oedd yn bresennol:-

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan (Grŵp Llafur)
Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman (Grŵp Plaid Cymru)
Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Powell (Grŵp Annibynnol)
Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. James (Grŵp y Ceidwadwyr)

**82 Datganiadau o Fuddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

Eitem 8 ar yr agenda - Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor

- Cyfeiriodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman at ei gollyngiad a roddwyd gan y Pwyllgor Safonau ar 29 Tachwedd 2019 gan ddarparu "gollyngiad i'r aelod siarad a phleidleisio ar bob mater trwy gydol proses Cyllideb 2021-22, a'i mabwysiadu, yn rhinwedd ei swydd yn Arweinydd yr Wrthblaid."

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol E Stephens - "Rwy'n gweithio i'r Adran Gwaith a Phensiynau y cyfeirir ato yn yr adroddiad"

**83 Munud o ddistawrwydd**

Cynhaliodd yr Aelodau munud o ddistawrwydd i dalu teyrnged i'r unigolion sydd wedi marw o ganlyniad i Covid-19.

**84 Cyhoeddiadau**

- Cyhoeddodd Arweinydd y Cyngor fod trydydd aelod o staff y Cyngor wedi marw o ganlyniad i Covid ac estynnodd ei gydymdeimlad i'r teuluoedd.

- Talodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol P Jarman deyrnged i'r holl deuluoedd sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y Pandemig. Talodd deyrnged hefyd i gyn-Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol Terry Benney a gynrychiolodd Gorllewin Aberpennar ac a etholwyd i'r Cyngor cysgodol

ym 1995. Yn 1999 cafodd ei ailethol a daeth yn Aelod o'r Cabinet ar faterion Tai a llwyddodd i adolygu gwaith ailfodelu Pen-rhys yng Nghwm Rhondda a Bryn y Rhedyn yn Aberpennar.

- Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Jones wedi canmol un o'i drigolion, Seren Lewis-Dawe sy'n 11 oed ac a oedd wedi ymrwymo i godi £3,300 ar gyfer Felindre trwy redeg 65 milltir ym mis Rhagfyr 2020, ar ôl i aelod o'i theulu gael triniaeth ar gyfer canser. Mae hi hefyd wedi cael ei phenodi'n Llysgennad Iau ar gyfer Felindre.

- Talodd Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Powell deyrnged i'r cyn-Gynghorydd T Benney hefyd.

- Aeth y Cynghorydd Powell ymlaen drwy gydnabod bod ei gyd-Gynghorydd P Howe wedi ennill pedair gwobr gyntaf ar gyfer y 'Sioe Gomedi Orau' o'r enw 'Bryn Coombes' ac mae wedi cyrraedd y rownd derfynol ar gyfer pedair gwobr arall.

- Cyhoeddwyd hefyd bod Mr Gio Isingrini, sydd newydd ymddeol, wedi derbyn OBE yn Rhestr Anrhydeddau Blwyddyn Newydd y Frenhines.

**85 Rheol 15.1 - Dull Gweithredu'r Cyngor**

Cynigiodd y Dirprwy Arweinydd atal Rheol Gweithdrefn 15.1 y Cyngor, sy'n nodi y bydd mater yn cael ei benderfynu os bydd mwyafrif ymhlith yr Aelodau sy'n pleidleisio ac sy'n bresennol yn yr ystafell adeg y bleidlais - a hynny fel bod modd cynnal y cyfarfod ar-lein mewn modd didrafferth.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** atal Rheol Gweithdrefn 15.1 y Cyngor

**86 Cofnodion**

**PENDERFYNODD** y Cyngor gymeradwyo cofnodion o'r cyfarfod a gafodd ei gynnal ar 11 Tachwedd 2020 yn rhai cywir yn amodol ar gywiro Cofnod Rhif 48 - Cwestiynau gan Aelodau, sy'n cyfeirio at yr A470.

**87 Datganiadau**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod system neges destun y Cyngor wedi'i sefydlu. Bydd y system yma'n rhoi gwybod i Aelodau am unrhyw faterion brys neu sylweddol megis tywydd garw neu lifogydd. Dywedodd fod y system yma wedi tynnu sylw'r Aelodau at rybuddion tywydd gwael yn ddiweddar. Roedd yr Arweinydd wedi annog unrhyw Aelodau sydd heb ddarparu rhif ffôn cyfredol i wneud hynny trwy gysylltu â'r Gwasanaethau i Aelodau.

**88 Cwestiynau gan yr Aelodau**

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Brencher i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser:**

“Pa gymorth sy'n cael ei ddarparu i ysgolion RhCT er mwyn galluogi a hwyluso dysgu o bell?"

**Ymateb gan y Cynghorydd J Rosser:**

“Esboniodd y Cynghorydd Rosser fod y Cyngor wedi cefnogi'r holl ysgolion trwy gydol y pandemig gan eu hannog nhw i fanteisio ar lwyfan Hwb Llywodraeth Cymru sy'n darparu pecyn dysgu cyfunol cynhwysfawr. Mae rhai enghreifftiau o arfer da wedi'u nodi gan nifer o ysgolion RhCT, megis Ysgol Garth Olwg ac Ysgol Cwm Rhondda. Mae'r Cyfarwyddwr Addysg yn cynnal cyfarfodydd cyson â Phenaethiaid a Chyrff Llywodraethu i rannu'r newyddion diweddaraf. Mae cyflwyniadau mewn perthynas â dysgu cyfunol wedi'u darparu i Benaethiaid. Cafodd canllawiau mewn perthynas â dysgu eu darparu wrth baratoi ar gyfer disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol a chafodd dogfennau canllaw mewn perthynas â dysgu cyfunol a dysgu o bell eu darparu gan Gonsortiwm Canolbarth y De. Mae partneriaid gwella wedi cefnogi ysgolion unigol gan ddarparu cymorth rhwng ysgolion i ddatblygu gweithdrefnau er mwyn darparu addysgu ar-lein. Rhoddodd y Cynghorydd Rosser wybod bod Awdurdod Lleol RhCT wedi cyflawni adolygiad Estyn mewn perthynas â gwaith cefnogi cymunedau dysgu mewn ysgolion ym mis Tachwedd 2020. Mae'r Awdurdod wedi derbyn Adroddiad Estyn cadarnhaol iawn sy'n tynnu sylw at gyfathrebu cryf rhwng meysydd gwasanaeth a chydweithio â chyfarwyddiaethau eraill a golwg penderfynol yr ysgolion ac arweinwyr i fynd i'r afael â'r heriau sydd wedi codi yn ystod y pandemig."

**Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol**.

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Griffiths i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

"All yr Arweinydd rannu'r newyddion diweddaraf mewn perthynas â pha sylwadau sy'n cael eu cyflwyno i Lywodraeth y DU gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Awdurdod Lleol yma mewn perthynas â'r Gyllideb a fydd yn cael ei chyhoeddi ym mis Mawrth?"

**Ymateb y Cynghorydd A Morgan:**

“Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod llywodraeth leol wedi chwarae rhan hollbwysig yn y frwydr yn erbyn covid wrth i'w staff ymateb mewn modd hyblyg a chadarnhaol ac wrth i'w gwasanaethau addasu. O ganlyniad i hynny dylai llywodraeth leol gael ei diogelu wrth lunio'r gyllideb yn y dyfodol. Dywedodd yr Arweinydd mai setliad dros dro Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Awdurdod Lleol yma yw 3.8%, sy'n gadarnhaol. O ran y Gyllideb, sy'n cael ei chynnal ddydd Mercher, 3 Mawrth, mae nifer o fuddsoddiadau ychwanegol, yn hytrach na buddsoddiad ar gyfer y gwasanaethau craidd, megis gofal cymdeithasol, wedi'u nodi ar y cyd â'r Gymdeithas Llywodraeth Leol. Dywedodd yr Arweinydd fod trafodaethau wedi cael eu cynnal gyda Llywodraeth Cymru a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol mewn perthynas â nifer o feysydd megis seilwaith cyfalaf a'r angen i drafod buddsoddiad arall yn y maes yma, yn enwedig wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio, er mwyn rhoi hwb i'r economi leol. Maes arall sy'n peri pryder yw rhewi cyflogau, oni bai am y staff hynny sydd ar y raddfa gyflog is ac felly'n derbyn cynnydd o £250, bydd hyn yn cael effaith ar staff sydd wedi gwneud ymdrech ychwanegol yn ystod y cyfyngiadau symud. Mae'r Awdurdod Lleol yn cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU yn galw am ariannu cynllun codi cyflog cenedlaethol. ”

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd M Griffiths:**
"Mae disgwyl i'r cyfraddau diweithdra gynyddu i 7.5%, yn enwedig ymhlith pobl ifainc a gan ystyried y bydd y gamreolaeth o ran Brexit yn sicrhau nad oes modd gweithredu cynllun adfer wedi'i seilio ar allforio, a yw'r Arweinydd yn cytuno bod angen i Lywodraeth y DU fod yn uchelgeisiol wrth fuddsoddi mewn cynllun adfer carbon isel a fyddai'n herio newid yn yr hinsawdd ac yn helpu'r broses o adfer yr economi?"

**Ymateb y Cynghorydd A Morgan:**
“Cytunodd y Cynghorydd Morgan y byddai economi carbon isel, gwyrdd yn cynnig yr ateb gorau ac y byddai’n rhoi hwb i’r economi wrth symud ymlaen”

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Edwards i Arweinydd y Cyngor - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**
“A wnaiff yr Arweinydd roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y tirlithriad diweddar yn Nhomen Wattstown?"

**Ymateb gan Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**
“Dywedodd y Cynghorydd Morgan fod tirlithriad wedi digwydd yn nhomen RH87 yn ardal Wattstown ar ddydd Sadwrn, 19 Rhagfyr 2020. Mae'r domen ar dir preifat ac roedd dros 2,000 tunnell o ddeunydd wedi llithro i lawr wyneb serth y llethr. Roedd cryn dipyn o law cyn i'r tirlithriad ddigwydd, ac roedd hynny wedi achosi'r tirlithriad. Mae archwiliadau wedi cael eu cynnal bob pythefnos ers sawl mis a bydd peirianyddion yn parhau i fonitro'r safle gan ddefnyddio synwyryddion a dronau. Dywedodd yr Arweinydd fod tua 500 tunnell o ddeunydd ar ochr dde uchaf y domen sydd yn parhau i fod mewn perygl o symud. Cadarnhaodd fod trafodaethau yn parhau mewn perthynas â thomenni gyda grŵp gorchwyl sy'n cynnwys partneriaid megis Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Awdurdod Glo a'r Awdurdod Lleol ar lefel Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ac mae trafodaethau'n parhau i gael eu cynnal gyda pherchennog y tir yn nhomen Wattstown a'i asiant.

**Doedd dim cwestiwn atodol.**

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S M Powell i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**
"Sut ydy'r Cyngor yn ymgysylltu â thrigolion er mwyn atgyfnerthu'r negeseuon iechyd cyhoeddus allweddol mewn perthynas â Covid-19?"

**Ymateb y Cynghorydd A Morgan:**
“Rhoddodd yr Arweinydd wybod bod llawer o wybodaeth anghywir mewn perthynas â Covid, y brechlyn a'r profion wedi cael ei rhannu yn ystod y pandemig felly mae cell cyfathrebu wedi cael ei sefydlu gyda Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg, yr awdurdodau lleol cyfagos a Heddlu De Cymru i sicrhau bod negeseuon a gwybodaeth allweddol yn gyson. Mae'r wybodaeth sydd ddim yn gywir ar y cyfryngau cymdeithasol yn cael ei monitro ac mae Cyfarwyddwr Cyfadran Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant y Cyngor wedi chwarae rôl allweddol o ran ymgysylltu â chyfathrebu â'r Bwrdd Iechyd Lleol. Pwysleisiodd yr Arweinydd bwysigrwydd gwybodaeth leol a bod aelodau lleol yn chwarae rôl bwysig wrth rannu gwybodaeth â thrigolion. I gloi, pwysleisiodd yr Arweinydd bwysigrwydd anfon negeseuon cadarnhaol at drigolion yn ystod yr amser heriol yma".

**Doedd dim cwestiwn atodol.**

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol T. Williams i Arweinydd y Cyngor - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**
"Yn dilyn ymestyn cynllun peilot y cynllun profi torfol yng Nghwm Cynon isaf, a wnaiff yr Arweinydd ddatganiad ar y canlyniadau a'r camau nesaf?"

**Ymateb y Cynghorydd A Morgan:**

"Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod cyfanswm o 15,274 o brofion llif unffordd wedi cael eu cyflawni yn ardal Cwm Cynon Isaf rhwng 5 Rhagfyr a 22 Rhagfyr 2020. Roedd 372 o'r rhain yn bositif, roedd 2.4% o'r rhain yn achosion asymptomatig ac felly doedden nhw ddim yn arddangos symptomau ond roedd gofyn iddyn nhw hunanynysu. Yn rhan o'r cynllun profi, cafodd disgyblion Ysgol Gyfun Aberpennar eu profi, ar ôl ceisio caniatâd gan rieni. Cafodd 476 o ddisgyblion eu profi, a chafwyd un prawf positif. Mae hyn yn dangos bod ysgolion yn parhau i fod yn ddiogel. Cadarnhaodd yr Arweinydd fod 1506 o becynnau profi yn y cartref wedi cael eu dosbarthu i'r rheiny sydd ar y rhestr gwarchod rhwng 11 Rhagfyr 2020 ac 8Ionawr 2021. Cafodd 673 prawf eu dychwelyd (sef 45%), mae hyn yn gadarnhaol. Ym Merthyr Tudful dim ond 36% o brofion gafodd eu dychwelyd.

Dywedodd yr Arweinydd y byddai cynnal profion ledled y Fwrdeistref Sirol yn gosod galw enfawr ar adnoddau staff, mae'n bosibl y byddai angen rhwng 500 a 600 aelod o staff. Byddai'r rhain hefyd yn cefnogi'r rhaglen frechu. Mae rhai trafodaethau wedi cael eu cynnal ynghylch cynnal profion wedi'u targedu ac o fewn ardaloedd penodol ac mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi trafod cynnal cynlluniau profi torfol pellach."

**Doedd dim cwestiwn ategol**.

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Bradwick i Ddirprwy Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Webber:**
"A wnaiff y Dirprwy Arweinydd ddatganiad ar gynnydd y Bil Llywodraeth Leol?"

**Ymateb y Dirprwy Arweinydd:**
"Rhoddodd y Dirprwy Arweinydd wybod bod y Bil Llywodraeth Leol wedi cael ei gyflwyno gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ym mis Tachwedd 2019 a'i gymeradwyo gan y Senedd ym mis Tachwedd 2020. Mae gan y Bil gwmpas eang ac mae'n mynd i'r afael ag ystod o faterion democrataidd megis ymestyn yr hawl i bleidleisio yn ystod etholiadau i unigolion 16 ac 17 oed a dinasyddion o dramor sy'n byw yn gyfreithlon yng Nghymru, gan ehangu rôl Craffu ac Archwilio. Rhoddwyd gwybod bod Pwyllgor Archwilio'r Cyngor eisoes wedi cychwyn gwaith ar yr ail ran. Rhagor o wybodaeth mewn perthynas â sut mae'r Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r Cynghorau Tref a'r Cynghorau Cymuned ac yn eu cefnogi. Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod gwaith gyda'r Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned eisoes yn cael ei gydnabod ar ffurf cyfarfodydd cyson y Pwyllgor Cyd-gysylltu â'r Gymuned sy'n cefnogi'r cynghorau cymuned. Mae'r Pwyllgor Cyd-gysylltu â'r Gymuned yn gweithio'n agos gyda'r Clercod ac mae cefnogaeth barhaus yn cael ei chynnig gan aelodau etholedig i gynghorau tref a chymuned sy'n cynnwys hyfforddiant a chyngor a pharodrwydd i gymryd rhan mewn nifer o ddulliau partneriaeth. "

**Cwestiwn ategol gan y Cynghorydd S.Bradwick:**
"Pa mor dda yw'r Cyngor wrth ymateb i'r gofynion sydd wedi'u gosod ar

awdurdodau lleol o ran cynyddu cyfranogiad y cyhoedd?”

**Ymateb y Dirprwy Arweinydd:**
“Roedd y Dirprwy Arweinydd wedi ymateb trwy gynghori bod y Bil yn gofyn i'r Cyngor fod yn rhagweithiol wrth annog trigolion i gymryd rhan mewn llywodraeth leol ond hefyd i lunio strategaeth ymgysylltu. Yn 2019 lluniodd y Cyngor Brotocol Ymgysylltu â'r Cyhoedd sy'n gweithredu fel sail i'r gofyniad yma. Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod y Cyngor eisoes yn hyrwyddo dulliau ymgysylltu cadarnhaol ynghylch penderfyniadau ac mae'n sicrhau ei fod yn ymgysylltu â thrigolion o bob oed. Rhoddodd wybod y bydd y cyfleusterau Gweddarlledu yn Siambr y Cyngor yn gwella hyblygrwydd ynghylch mynychu cyfarfodydd o bell, ac mae Dirprwy Arweinydd y Cyngor a Chadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, y Cynghorydd M Diamond eisoes wedi gweld hyn"

**89 Rhaglen Waith Y Cyngor 2020/21**

Rhannodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu'r newyddion diweddaraf mewn perthynas â Rhaglen Waith y Cyngor ar gyfer 2020/21. Dywedodd fod UBI RhCT wedi cael gwahoddiad i fynychu cyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror a bydd y ddadl ar sefyllfa'r Fwrdeistref Sirol hefyd yn cael ei chynnal. Bydd rhagor o fanylion yn cael eu rhannu maes o law. Cafodd Aelodau wybod bod Trivallis wedi gofyn am gyfle i wneud cyflwyniad mewn perthynas â'u trefniadau ymgysylltu yn rhan o sesiwn cyn cyfarfod y Cyngor yn ystod mis Chwefror neu fis Mawrth 2021.

Yn rhan o ymateb i ymholiad mewn perthynas ag agendâu ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol, rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu wybod y bydd angen adrodd yn ôl i'r Cyngor ar yr enwebiadau ar gyfer Rhyddid y Fwrdeistref yn ogystal â nifer o argymhellion eraill.

Cadarnhaodd hefyd y byddai Prif Weithredwr Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn gwneud cyflwyniad i'r Cyngor yma cyn diwedd y Flwyddyn Ddinesig hon fel y cytunwyd yn ystod cyfarfod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

**90 Diweddariad Mewn Perthynas â'r Coronafeirws yn Rhondda Cynon Taf**

Rhoddodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant ddiweddariad mewn perthynas â'r coronafeirws yn RhCT gan gyfeirio at gyflwyniad Powerpoint. Roedd y cyflwyniad yn mynd i'r afael â'r wybodaeth allweddol ganlynol:-

- Achosion Covid 19 wedi'u cadarnhau fesul 100,000 o'r boblogaeth yn y 7 diwrnod blaenorol
- Achosion Covid 19 wedi'u cadarnhau fesul 100,000 o'r boblogaeth yn y 7 diwrnod diwethaf fesul Awdurdod Lleol
- Cyfradd heintio Covid fesul 100,000 o'r boblogaeth dros gyfnod o 7 niwrnod
- Profion Covid Positif yn ardal CTM Fesul Dydd
- Gwyliadwriaeth Covid mewn Ardaloedd Lleol
- Disgwyliadau Cyflawni Llywodraeth Cymru
- Grwpiau Blaenoriaeth ar gyfer Cynllun Brechu'r Coronafeirws (Covid 19)
- Penawdau: Cynnydd hyd at 17 Ionawr 2021

- Ystyriaethau Cyflawni Gweithredol
- Y 4 wythnos nesaf hyd at ganol mis Chwefror

Yn dilyn y diweddariad, cafodd pob un o'r Arweinwyr Grŵp gyfle i ofyn cwestiynau.

**Y Cynghorydd A Morgan, Arweinydd y Cyngor ac Arweinydd y Grŵp Llafur**
Dywedodd y Cynghorydd Morgan fod canolfannau brechu torfol yn Abercynon ac yng Nghwm Rhondda ac mae cynlluniau ar y gweill i agor dwy ganolfan arall erbyn diwedd Ionawr 2021. Mae'r rhaglen brechu torfol yn dasg enfawr er mwyn sicrhau bod trigolion yn derbyn dau frechlyn, a chadarnhaodd y bydd y Cyngor yn cynnig ei gefnogaeth i feddygfeydd a bydd staff yn cael eu hyfforddi ar sut i roi'r brechlyn. Mae'r Cyngor yn gweithio i helpu i nodi lleoliadau addas ar gyfer y rhaglen brechu torfol gan fod rhai meddygfeydd lleol yn fach ac yn methu â chynnig y brechlyn i niferoedd mawr o drigolion. O ganlyniad i hynny, mae nifer o feddygfeydd yn cydweithio er mwyn gweithio o'r canolfannau brechu, megis Canolfan Bowls Cwm Cynon.

Dywedodd yr Arweinydd y byddai'r Bwrdd Iechyd yn rhoi 20,000 brechlyn yr wythnos hon ac yn dilyn trafodaethau â Phrif Weithredwr y GIG yng Nghymru roedd modd iddo gadarnhau y byddai holl breswylwyr y Cartrefi Gofal i Oedolion, staff a chleientiaid yn cael eu brechu erbyn diwedd mis Ionawr 2021. At hynny, roedd y cynllun i gwblhau cynllun brechu Grwpiau blaenoriaeth 1-4 erbyn canol mis Chwefror ar y trywydd iawn.

**Y Cynghorydd P Jarman (Arweinydd Grŵp, Grŵp Plaid Cymru)**
Estynnodd y Cynghorydd Jarman ei diolch i holl staff y GIG a'r rheini yn y sector gofal a staff y Cyngor am eu cefnogaeth ac i'r holl wirfoddolwyr sydd wedi gwirfoddoli i ddarparu gwasanaethau sy'n gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl. Gofynnodd y Cynghorydd Jarman y canlynol: -

Faint o farwolaethau sy'n gysylltiedig â Covid-19 sydd wedi cael eu nodi yn RhCT hyd yn hyn yn ystod y Pandemig?

Sut ydy'r brechlyn yn cael ei ddyrannu i Feddygfeydd unigol, a yw hyn yn cael ei bennu gan Cwm Taf neu Lywodraeth Cymru? Mae'n ymddangos nad yw rhai meddygfeydd yn derbyn lefel y brechlyn ar sail faint o bobl sydd wedi cofrestru â'r feddygfa.

Pwy sy'n gyfrifol am flaenoriaethu'r cleifion, a yw hyn yn cael ei wneud yn nhrefn yr wyddor?

A fydd y Ganolfan Bowls yn Aberpennar yn cael ei nodi fel lleoliad ar gyfer cynllun brechu torfol?

Cyfeiriodd y Cynghorydd Jarman at effeithiau Covid ar iechyd meddwl a lles ac roedd hi o'r farn na fu dadl na thrafodaeth ynglŷn â hyn. Er gwaethaf gwaith caled y Gyfarwyddiaeth Addysg, Athrawon a staff cymorth o ran darparu cyfleoedd dysgu ar-lein, mae gan rai ysgolion mwy o adnoddau nag eraill. Dywedodd y Cynghorydd Jarmon fod y baich sy'n gysylltiedig â chostau yn annioddefol a dydy'r data sy'n cael ei gynnig ar ddyfeisiau talu wrth fynd ddim wedi cael ei lunio i ymdopi â darpariaeth dysgu ar-lein a fyddai rhai teuluoedd ddim yn gallu prynu rhagor o ddata. Os yw darpariaeth dysgu o bell yn mynd i barhau, beth mae modd i ni ei wneud fel Cyngor i geisio cywiro'r broblem o ran y cynnydd yn y bwlch tlodi.

**Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Powell, Grŵp Annibynnol RhCT**
Nododd y Cynghorydd Powell ei ddiolch i Athrawon, staff y Cyngor a gwirfoddolwyr am eu gwaith caled.

Cododd y Cynghorydd Powell bryder ynghylch diffyg dull wedi'i gydlynu mewn ysgolion o ran dysgu ar-lein gan nodi y dylai'r materion yma wedi derbyn sylw ar ddechrau'r cyfyngiadau symud a dydy hi ddim yn edrych fel bod y gwasanaeth dylai'r Cyngor fod yn ei ddarparu ar waith ar hyn o bryd.

O ran y rhaglen Frechu, nododd y Cynghorydd Powell fod tair Meddygfa yn ardal Pontypridd wedi rhan 400 brechlyn rhyngddyn nhw a nododd fod lleoliadau, cyfleusterau a swyddfeydd sydd ddim yn cael eu defnyddio sy'n fwy addas ar gael yn y Sir a byddai modd i'r rhain gefnogi rhaglen frechu yn hytrach na gorfod defnyddio'r Meddygfeydd. Gofynnodd pa ganolfannau brechu sy'n cael eu sefydlu yn ardal Taf-Elái ac a fydd y canolfannau brechu yn gweithredu 24 awr, saith diwrnod yr wythnos?

**Y Cynghorydd J James, Arweinydd Grŵp y Grŵp Ceidwadol**
Ychwanegodd y Cynghorydd James ei ddiolch i'r staff a'r gwirfoddolwyr sy'n cynorthwyo â'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r cyfyngiadau symud.

Holodd y Cynghorydd James ynglŷn â'r camau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i sicrhau bod trigolion yn deall y neges ynghylch cadw pellter cymdeithasol ac yn parhau i gydymffurfio â'r rheolau?

Roedd Cyfarwyddwr Cyfadran Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant wedi ymateb i'r ymholiadau canlynol:-

- Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn nodi bod 1,085 o farwolaethau sy'n gysylltiedig â Covid 19 wedi'u nodi yn RhCT.
- Brechlynnau sydd wedi'u dyrannu i Feddygon Teulu a Lleoliadau Gofal Sylfaenol - Roedd y rhaglen yn canolbwyntio ar gleifion dros 80 oed i gychwyn, ond y Bwrdd Iechyd sy'n gyfrifol am y faint sy'n cael eu dyrannu i Feddygfeydd. Maen nhw wedi bod yn dibynnu ar gyflenwad o frechlyn Rhydychen sydd â llai o ofynion o ran storio ac felly mae wedi bod yn anodd sicrhau cyflenwad o'r brechlyn.
- Cafodd y naw grŵp â blaenoriaeth eu cytuno'n genedlaethol gan y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu. Mae'r grwpiau blaenoriaeth mwyaf wedi'u seilio ar oedran a'r rheiny sy'n agored i niwed yn glinigol a'r gweithlu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol sy'n darparu cymorth i'r unigolion hynny.
- Mae Canolfan Bowls Cwm Cynon yn cael ei defnyddio i gefnogi Cynlluniau Clwstwr Meddygon Teulu ar gyfer y rhaglen frechu.
- Manteision y brechlynnau gwahanol - mae gan Pfizer gofynion penodol o ran sut i'w storio a bod angen ei ddefnyddio o fewn terfynau amser penodol. Dyna pam mae'r brechlyn yn cael ei ddefnyddio mewn ysbytai i frechu staff ac mewn canolfannau brechu torfol lle mae modd bodloni'r gofynion storio yma.
- Mae capasiti lonydd y ganolfan frechu yn cael ei gynyddu yn Nhŷ Trevithick er mwyn cynnwys 15 lôn ac i gynyddu nifer y bobl sy'n mynd i'r ganolfan bob dydd. Yr oriau gweithredu ar hyn o bryd yw 9-5pm, ond bydd y rhain yn cael eu hymestyn i gynnwys 7 diwrnod yr wythnos.
- Dylai'r mesurau barhau i gael eu gweithredu, er bod y brechlyn yn parhau i gael ei gynnig. Mae hunanynysu, golchi dwylo a chadw pellter

cymdeithasol yn negeseuon hollbwysig sy'n cael eu pwysleisio gan garfanau gwahanol o fewn y Cyngor, megis y garfan gyfathrebu, y garfan iechyd a diogelwch y cyhoedd, carfanau olrhain cysylltiadau sy'n pwysleisio'r neges yma ym mhob galwad a'r garfan gorfodi, sy'n gweithredu ar y cyd â Heddlu De Cymru, sy'n cymryd camau gorfodi os bydd unrhyw un yn torri rheolau mewn perthynas â'r cyfyngiadau.

Roedd y Cyfarwyddwr Addysg wedi ymateb i'r ymholiadau a gafodd eu codi gan yr Arweinwyr y Grwpiau mewn perthynas â'r anawsterau y mae dysgwyr wedi'u heithrio'n ddigidol yn eu hwynebu. Yn dilyn archwiliad o'r dysgwyr wedi'u heithrio'n ddigidol, cafodd 2868 o ddyfeisiau eu darparu gan y Cyngor yn ystod tymor y gwanwyn/haf y llynedd. Yn ddiweddar, cafodd adolygiad ei gyflawni a oedd yn nodi bod angen dyfeisiau ar 2,635 o ddysgwyr pellach; mae'r Cyngor hefyd yn y broses o ddarparu dyfeisiau i'r bobl ifainc yma.

Roedd y Cyfarwyddwr Addysg wedi siarad am broblemau cysylltu mewn rhai cartrefi, roedd Llywodraeth Cymru wedi darparu adnoddau fel bod modd i'r Cyngor ddarparu dyfeisiau DiWifr i sicrhau bod modd i deuluoedd gysylltu â'r We heb unrhyw gost.

Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr fod pecyn hyfforddi cynhwysfawr ar gyfer dysgu o bell / cyfunol wedi'i ddarparu i bob ysgol ac mae'r holl adnoddau ar gael ar y wefan ac mae Consortiwm Canolbarth y De wedi darparu trosolwg o'r gwasanaethau sydd ar gael i'r Pwyllgor Craffu. Mae'r Cyngor wedi datblygu canllawiau ar gyfer yr holl ysgolion a chanllawiau ar gyfer rhieni a gwarcheidwaid a fydd yn cael eu rhannu cyn bo hir. Bydd hyn yn rhoi cyfle iddyn nhw roi adborth i'r Awdurdod Lleol mewn perthynas â'u profiadau o ddysgu ar-lein â'r ysgolion unigol, ar ffurf holiaduron. Mae adolygiadau manwl o'r gwaith sy'n cael ei gyflawni mewn ysgolion yn parhau i fynd rhagddo ac mae gan bartneriaid y Gwasanaethau Gwella rôl allweddol i'w chwarae wrth adolygu'r dystiolaeth sy'n cael eu cynnig gan ysgolion i'w teuluoedd i sicrhau bod darpariaeth dysgu o bell o safon ar gael iddyn nhw.

O ran lles disgyblion a dysgwyr, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr at y gwasanaethau cymorth sydd ar gael i bobl ifainc sy'n teimlo'n unig ar yr adeg yma. Mae Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn parhau i fod ar gael i ysgolion, rhieni a chynhalwyr. Yn ddiweddar, cafodd cyflwyniad ei wneud i'r pwyllgor craffu gan amlinellu'r gwasanaethau sydd ar gael i'r holl ddysgwyr ifainc.

**91 Cyllideb Refeniw'r Cyngor 2021/22 - Setliad Llywodraeth Leol Arfaethedig**

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol yr Aelodau at adroddiad sy'n rhoi gwybodaeth ynglŷn â'r Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro ar gyfer 2021/2022, a gafodd ei gyhoeddi ar 22 Rhagfyr 2020, a'r sylwadau cychwynnol ar ei oblygiadau tebygol ar gyfer cyflwyno gwasanaethau'r Cyngor.

Rhannodd y Cyfarwyddwr ddata o'r setliad gyda'r Aelodau, gan gynghori bod y cynnydd yn y cyllid Grant Cynnal Refeniw a'r Ardrethi Annomestig ar gyfer 2021/22 (sef cyllid heb ei neilltuo), ar lefel Cymru gyfan, ac ar ôl addasu'r ffigur ar gyfer trosglwyddo, yn cyfateb i 3.8% (+£172miliwn).

Cafodd yr Aelodau wybod bod ffigyrau'r setliad ar gyfer 2021/22 yn cyfateb i gynnydd o **3.8%** sy'n cyfateb i'r cynnydd ar gyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan. Mae ffigurau'r setliad yn amrywio o 2.0% i 5.6% ledled Cymru. Does dim

mesurau diogelu wedi'u cynnwys ar gyfer 2021/22.

Cafodd yr Aelodau wybod nad yw cyllideb sylfaenol y Cyngor yn cynnwys costau'r goblygiadau sy'n ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig ac rydyn ni'n rhagweld y bydd y rhain yn parhau i gael eu cefnogi ar wahân gan Lywodraeth Cymru.

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod effeithiau cyfunol y diweddariad ar y bwlch yn y gyllideb wedi'u nodi yn nhabl 4 a'r bwlch yn y gyllideb sy'n weddill yw £4.057miliwn. I gloi, rhoddodd wybod y bydd y Cabinet yn trafod y strategaeth gyllideb ddrafft a fydd yn destun ail gam yr ymgynghoriad ar y gyllideb cyn iddi gael ei thrafod gan y Cyngor ym mis Mawrth.

Croesawodd yr Aelodau'r Setliad Llywodraeth Leol Arfaethedig ar gyfer 2021/22, a gafodd ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ac yn dilyn trafodaeth lle ymatebodd y Cyfarwyddwr i nifer o ymholiadau megis dulliau newydd y Cyngor o weithio sy'n ffurfio rhan o'r gwaith i nodi gofynion effeithlonrwydd, **PENDERFYNWYD**:

1. Nodi'r Setliad Llywodraeth Leol 2021/22 Arfaethedig, a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar 22 Rhagfyr 2020.

2. Nodi bod disgwyl i'r Setliad Llywodraeth Leol 2021/22 terfynol gael ei gyhoeddi ar ddiwedd mis Chwefror 2021: a

3. Nodi'r dull o ran ymgynghori ar gyllideb 2021/22, fel sydd wedi'i bennu eisoes.

**92 Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol ei adroddiad sy'n cyflawni'r
gofyniad sydd wedi'i osod ar y Cyngor i drafod a ddylai adolygu neu ddisodli'r Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor cyfredol (“CTRS”) yn flynyddol a'r gofyniad i fabwysiadau cynllun erbyn
31 Ionawr 2021.

Roedd y Cyfarwyddwr wedi cyfeirio'r Aelodau at yr adroddiad sy'n tynnu sylw at y newidiadau i'r Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor
a gafodd eu cyflwyno ym mis Ebrill 2013 sy'n cynnwys y diwygiadau a gynigiwyd, y goblygiadau tebygol o ran cyllid
ac yn nodi canlyniadau'r ymgynghoriad sy'n caniatáu i'r Aelodau drafod mabwysiadu
Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor lleol y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

Ar ôl trafod yr adroddiad **PENDERFYNWYD** cytuno ar yr argymhellion canlynol:-

a) Nodi a mabwysiadu darpariaethau'r rheoliadau a'r gofynion rhagnodedig a'r diwygiadau sydd wedi'u gwneud i'r rheoliadau hynny gan y Rheoliadau wedi'u Diwygio (fel y'u cymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru (LlC) ar 12 Ionawr 2021) fel Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor lleol y Cyngor

ar gyfer 2021/22, yn amodol ar y disgresiwn lleol y mae modd i'r Cyngor ei roi ar waith;

b) Nodi canlyniad yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y Cyngor ynglŷn â'r disgresiwn sy'n berthnasol i'r Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor ar gyfer 2021/22; a

c) Cadarnhau'r disgresiwn sy'n berthnasol i'r Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor ar gyfer 2021/22 fel sydd wedi'i nodi ym mharagraff 5.3 (Tabl 2) o'r adroddiad hwn.

**93 Penderfyniadau Brys o dan Swyddogaethau Gweithredol**

Yn unol â Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu 17.2(a), adroddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu am y penderfyniadau brys a ddygwyd ymlaen trwy benderfyniad dirprwyedig allweddol yn ystod y cyfnod Hydref – Rhagfyr 2020 a **PHENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth sy wedi'i chynnwys yn yr adroddiad.

**94 Rhybudd o Gynnig**

Trafod y Rhybudd o Gynnig isod sydd wedi'i gyflwyno yn enwau:
Y Cynghorwyr P. Jarman, H. Fychan, S. Rees-Owen, M. Weaver, K. Morgan, D. Grehan, E. Griffiths, J. Williams, A. Cox, J, Davies, J. Cullwick, G. Davies, E. Webster, S. Evans, A, Chapman, E. Stephens a L. Jones:-

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

1. Yn cydnabod y ffaith drallodus bod 30% o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi ac eto dim ond 13% sydd â hawl i brydau ysgol am ddim. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod yr 17% o blant sy'n weddill yn byw mewn cartrefi â chyflog isel, sy'n mynd â nhw ychydig dros y meini prawf presennol ar gyfer hawlio prydau ysgol am ddim.
2. Yn nodi bod Lloegr a'r Alban yn darparu prydau ysgol am ddim cynhwysol i ddisgyblion yn yr adran fabanod, gyda holl ddisgyblion y dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn gymwys. Dydy hyn ddim yn wir yng Nghymru.
3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau brys i bennu cost a chyllidebu'r gwaith o ddarparu Prydau Ysgol am Ddim i bob plentyn sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru ond sydd wedi'u heithrio rhag hawlio prydau o dan y meini prawf cymhwysedd presennol, a rhoi hyn ar waith.
4. Yn cytuno na ddylai unrhyw blentyn fod yn llwglyd ac y dylai hyn fod yn gam tuag at y nod o gyflwyno Prydau Ysgol am Ddim Cynhwysol i bob plentyn yng Nghymru fel y mae grwpiau amrywiol yng Nghymru yn galw amdano, gan gynnwys Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant a Chynulliad y Bobl

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig.

(**Nodwch:** Ymatalodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. James rhag pleidleisio ar y mater)

**95 Materion Brys**

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.20 pm**

**Cllr S Powderhill**
**Cadeirydd.**